



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Iechyd Rhyngwladol
International Health

Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol Yr Argyfwng Costau Byw

Adroddiad 40, Awst 2022

Canolfan Gydwethredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant



World Health Organization
Collaborating Centre on Investment
for Health and Well-being

Trosolwg

Dechreuwyd yr adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol fel rhan o'r ymateb iechyd y cyhoedd i COVID-19, i gefnogi ymateb deinamig a mesurau adfer a chynllunio yng Nghymru. Mae'r adroddiadau'n amrywio o ran ffocws a chwmpas, yn dibynnu ar sefyllfa esblygol COVID-19 yn ogystal ag anghenion iechyd y cyhoedd/ polisi ar y pryd. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar dystiolaeth ryngwladol, data, profiad, polisi a mesurau iechyd y cyhoedd, a dulliau pontio ac adfer wedi COVID-19. Cafodd dysgu a gwybodaeth eu casglu a'u syntheseiddio i ddeall ac archwilio atebion ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau parhaus iechyd, llesiant, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg (niwed a manteision posibl) y pandemig.

Yng ngwanwyn 2022, ehangwyd cwmpas yr adroddiadau i gwmpasu pynciau iechyd y cyhoedd â blaenoriaeth, gan gynnwys ym meysydd gwella a hybu iechyd, diogelu iechyd, a gofal iechyd. Mae pynciau a chanfyddiadau'r adroddiad yn cyd-fynd â gwneud penderfyniadau a gwaith parhaus yn Llywodraeth Cymru, y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn helpu i'w llywio. Maent hefyd yn cael eu dosbarthu i rwydwaith ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol (cyhoeddus) a phartneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae hyn yn rhan o ddull systematig ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru o gasglu gwybodaeth a throsi tystiolaeth yn bolisi ac ymarfer, gan gefnogi camau gweithredu cydlynol, cynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n bwrw ymlaen â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chynllun strategol Cymru iachach tuag at Gymru iachach, fwy cyfartal, cydnherth, ffyniannus sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Ymwadiad: Mae'r adroddiadau'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r hyn a ddysgwyd o brofiadau bywyd go iawn o wledydd dethol, ac o amrywiaeth o lenyddiaeth wyddonol a llwyd, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth i ganiatáu archwiliad pellach. Nid yw'r adroddiadau'n gynhwysfawr ac nid ydynt wedi'u hanelu at ddarparu adolygiad tystiolaeth, dadansoddiad neu sicrwydd ansawdd manwl, cadarn na thrylwyr. Eu bwriad yw cynnig cipolwg byr neu dystiolaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan rannu enghreifftiau o wledydd perthnasol a chanllawiau ac egwyddorion allweddol cyrff rhyngwladol o fri.

Mewn ffocws:

 Yr argyfwng costau byw

Cynnwys

Cipolwg: crynodeb o ddysgu rhyngwladol	3
Yr argyfwng costau byw: Trosolwg	5
Yr argyfwng costau byw: Tai.....	8
Yr argyfwng costau byw: Cyflogaeth a diogelwch cymdeithasol	12
Yr argyfwng costau byw: Bwyd	16
Yr argyfwng costau byw: Tanwydd	21

Cipolwg: crynodeb o ddysgu rhyngwladol

“Rhaid i bob llywodraeth aildechrau ar unwaith a chyflymu ymdrechion i sicrhau bod pob un o’u dinasyddion yn gallu cyrchu gwasanaethau iechyd heb ofni’r canlyniadau ariannol. Mae hyn yn golygu cryfhau gwariant cyhoeddus ar iechyd a chymorth cymdeithasol, a chynyddu eu ffocws ar systemau gofal iechyd sylfaenol a all ddarparu gofal hanfodol yn agos i’r cartref.”
(Dr Tedros Adhanom Ghebreyesus, Cyfarwyddwr Cyffredinol WHO)¹

Yr argyfwng costau byw:

- ✚ Mae'r argyfwng costau byw yn golygu **“y gostyngiad mewn incwm gwario ‘go iawn’ (hynny yw, wedi’i addasu ar gyfer chwyddiant ac ar ôl trethi a budd-daliadau) [...] a achosir yn bennaf gan chwyddiant uchel sy’n fwy na’r cynnydd mewn cyflogau a budd-daliadau ac sydd wedi’i waethygu ymhellach gan y codiadau treth diweddar”**
- ✚ Mae'r argyfwng costau byw presennol wedi’i **gymhlethu gan:**
 - **Sioc economaidd byd-eang** oherwydd pandemig COVID-19 a mesurau lliniaru
 - **Chwyddiant cynyddol**
 - **Amhariadau ar y gadwyn gyflenwi**
- ✚ Mae'r effeithiau ar iechyd o'r argyfwng costau byw yn **amlochrog**, gan gynnwys:
 - Cynnydd **yn y cyfraddau marwolaethau cardiofasgwlaidd, hunanladdiad a dynladdiad**
 - Gwaeth **canlyniadau iechyd meddwl a chlefydau heintus**
- ✚ Gellir deall goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol argyfwng economaidd ar iechyd (y cyhoedd) trwy ddefnyddio'r **fframwaith penderfynyddion cymdeithasol iechyd**, gan adnabod **pedair thema hollbwysig:**
 - 1) **Tai**
 - 2) **Cyflogaeth**
 - 3) **Bwyd**
 - 4) **Tanwydd**
- ✚ Mae mesurau lliniaru, a gynyddodd gwytnwch y system iechyd yn cynnwys:
 - Polisiâu i hybu gwariant cyhoeddus ar ddiogelu cymdeithasol a gwasanaethau iechyd
 - Cynnal mynediad i'r gwasanaeth iechyd
 - Nodi arbedion gwariant a dadfuddsoddi cysylltiedig

Tai

- ✚ Mae **gostyngiad mewn tai cymdeithasol a chynnydd mewn tai anfforddiadwy** wedi arwain at **allgáu cymdeithasol a chanlyniadau andwyol ar yr economi**
- ✚ Mae **tai gwael yn cyfrannu** at glefydau anadlol, cardiofasgwlaidd a heintus, yn ogystal ag iechyd meddwl gwael
- ✚ Mae mesurau lliniaru yn cynnwys:
 - **Lwfansau tai**
 - **Tai cymdeithasol**
 - **Cymorth ariannol** ar gyfer perchentyaeth ac adfywio tai
 - Ffocws ar **dai iach**
- ✚ Gellir cyflawni'r mesurau hyn drwy **drethiant, gwariant, rheoleiddio, a chynllunio trefol**

¹ [More than half a billion people pushed or pushed further into extreme poverty due to health care costs \(who.int\)](https://www.who.int/news/item/11-05-2020-more-than-half-a-billion-people-pushed-or-pushed-further-into-extreme-poverty-due-to-health-care-costs)

Cyflogaeth

- ✚ **Gwelwyd cyfraddau diweithdra uwch** yn dilyn dirwasgiad ariannol 2008 a phandemig COVID-19
- ✚ **Mae gweithwyr anffurfiol yn arbennig o agored i niwed** o ran ergydion economaidd
- ✚ **Mae effeithiau diweithdra ar iechyd** yn cynnwys anhwylder gorbryder, hunanladdiad, ac ymddygiad sy'n niweidio iechyd fel goryfed alcohol
- ✚ **Mae mesurau lliniaru** yn cynnwys:
 - **Cynlluniau cymhorthdal cyflog; cynnydd isafswm cyflog**
 - **Ymestyn/cynnydd mewn taliadau budd-daliadau; taliadau unwaith ac am byth**
 - **Gostyngiadau/gohiriadau treth**
 - **Cynlluniau cadw swyddi**

Bwyd

- ✚ **Mae prisiau bwyd wedi cynyddu** oherwydd costau cynyddol tanwydd, ynni, gwrtaith, ac amhariad ar y gadwyn gyflenwi
- ✚ **Mae ansicrwydd bwyd yn anghymesur** yn fwy tebygol o effeithio ar grwpiau poblogaeth penodol, megis **menywod beichiog, plant, yr henoed neu bobl anabl**
- ✚ **Mae ansicrwydd bwyd a diet nad yw'n iach cysylltiedig yn gysylltiedig ag ystod o bethau sy'n niweidio iechyd a baich gormodol clefydau anhrosglwyddadwy**, gan gynnwys magu pwysau, gordewdra, diabetes math 2, clefydau cardiofasgwlaidd, a chanserau; yn ogystal ag **effeithiau iechyd meddwl**
- ✚ **Mae mesurau lliniaru** yn cynnwys:
 - **Polisi bwyd cenedlaethol**
 - **Lleihau gwastraff bwyd**: mudiadau cymdeithasol, sefydliadau, banciau bwyd
 - **Rhaglenni prydau ysgol am ddim**

Tanwydd

- ✚ **Mae pobl mewn tlodi ynni ag iechyd corfforol a meddyliol hunan-gofnodedig gwaeth**
- ✚ **Mae plant, oedolion â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, a phobl hŷn** yn profi effeithiau iechyd anghymesur oherwydd tlodi tanwydd
- ✚ **Mae mesurau lliniaru** yn cynnwys:
 - **Diogelwch defnyddwyr**
 - **Ymyriadau ariannol**
 - **Polisiau arbed / effeithlonrwydd ynni**
 - **Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr**

Yr argyfwng costau byw: Trosolwg

Diffiniad

Mae'r Institute for Government yn cyfeirio ar yr argyfwng costau byw fel: "**y gostyngiad mewn incwm gwario 'go iawn' (hynny yw, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant ac ar ôl trethi a budd-daliadau) [...] a achosir yn bennaf gan chwyddiant uchel sy'n fwy na'r cynnydd mewn cyflogau a budd-daliadau ac sydd wedi'i waethygu ymhellach gan y codiadau treth diweddar**".²

Effeithiau ar iechyd

Mae'r effeithiau ar iechyd o'r argyfwng costau byw yn **amlochrog**, gan gynnwys:³


- Cynnydd yn y cyfraddau marwolaethau cardiofasgwlaidd, hunanladdiad a dynladdiad
- Gwaeth canlyniadau iechyd meddwl a chlefydau heintus

Mae'r effeithiau yn **effeithio ar y grwpiau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed** yn y boblogaeth yn anghymesur gan greu cymdeithas sy'n fwy "**annheg yn systematig**".⁴⁵

- Mae pobl **ddi-waith** yn fwy tebygol o brofi effeithiau andwyol ar iechyd⁶
- Mae **aelwydydd incwm isel** yn fwy agored i effeithiau ar yr economi ac yn fwy tebygol o gael eu gwthio i dlodi, gan eu rhoi mewn risgiau ychwanegol o:⁶
 - ✓ Digartrefedd
 - ✓ Tlodi tanwydd
 - ✓ Effeithiau negyddol pellach ar iechyd corfforol a meddyliol

Gellir deall goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol argyfwng economaidd ar iechyd (y cyhoedd) trwy ddefnyddio'r **fframwaith penderfynyddion cymdeithasol iechyd** (Ffigur 1).

Ffigur 1: Fframwaith cysyniadol y Comisiwn ar Benderfynyddion Cymdeithasol Iechyd, Sefydliad Iechyd y Byd, 2008 (Ffynhonnell Saesneg yn unig)⁷



² [Cost of living crisis | The Institute for Government](#)

³ [The Role of Social Determinants in Tackling Health Objectives in a Context of Economic Crisis | SpringerLink](#)

⁴ <https://link.springer.com/content/pdf/10.1007/BF03391694.pdf>

⁵ [The cost of living crisis: how can we tackle fuel poverty and food insecurity in practice? | British Journal of General Practice \(bjgp.org\)](#)

⁶ [The Role of Social Determinants in Tackling Health Objectives in a Context of Economic Crisis | SpringerLink](#)


⁷ [Closing the gap in a generation: health equity through action on the social determinants of health \(who.int\)](#)

Polisi Iechyd

Fframwaith ar gyfer ymatebion polisi iechyd i ergydion economaidd yn cynnwys (Ffigur 2):⁸

- Penderfyniadau polisi i gynnal, newid, neu ailddyrannu gwariant ar iechyd
- Parthau polisi i newid gwariant o fewn y gwasanaethau iechyd

Ffigur 2. Ymatebion polisi iechyd i'r argyfwng ariannol a siociau economaidd eraill, Sefydliad Iechyd y Byd, 2012 (Ffynhonnell Saesneg yn unig)⁸



Dirwasgiad ariannol 2008

Ymatebodd llawer o lywodraethau i ddirwasgiad ariannol 2008 drwy **fabwysiadu mesurau cyni** (cynnydd mewn trethi, llai o wariant cymdeithasol) y canfuwyd eu bod yn gysylltiedig ag **effeithiau negyddol ar iechyd** gan gynnwys:⁹

- Cynnydd mewn iselder a chyfraddau hunanladdiad
- Mwy o farwolaethau ymhlith y rhai 85 oed a throsodd drwy ostyngiad mewn gofal cymdeithasol a chymorth ariannol
- Cynnydd mewn diweithdra, tloedi, digartrefedd ac ansicrwydd bwyd

Honnir bod hyn yn digwydd drwy **dau fcanwaith**:⁹

- **Uniongyrchol: gofal iechyd**
 - ✓ Llai o gyllid ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd
 - ✓ Llai o gwmpas o ran gwasanaethau
 - ✓ Llai o fynediad i ofal iechyd
- **Anuniongyrchol: risg gymdeithasol**
 - ✓ Llai o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus
 - ✓ Llai o wariant cymdeithasol

Yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan doriadau oedd y sector ysbytai, costau gweinyddol a phrisiau fferyllol, yn ogystal â niferoedd staff a chyflogau.⁹

Mae mesurau lliniaru, a gynyddodd gwytnwch y system iechyd yn cynnwys:⁹

⁸ [Health policy responses to the financial crisis in Europe \(who.int\)](#)

⁹ [Austerity and health: the impact in the UK and Europe - PMC \(nih.gov\)](#)

- Polisiâu i **hyrwyddo gwariant cyhoeddus ar ddiogelu cymdeithasol a gwasanaethau iechyd**
 - ✓ Lefelau digonol cychwynnol o wariant cyhoeddus ar iechyd
- Cynnal **mynediad i'r gwasanaeth iechyd**
 - ✓ Cwmpas iechyd cynhwysfawr
 - ✓ Lefelau isel / dim taliadau allan o boced
- **Nodi arbedion gwariant**
 - ✓ Ewyllys gwleidyddol i fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd a chynhyrchu referniw
 - ✓ Defnydd cynyddol o ddata cost-ffeithiolrwydd ar draws gwasanaethau iechyd i arwain penderfyniadau ar (dad)fuddsoddi

Argyfwng costau byw 2022

Achosodd pandemig COVID-19 sioc economaidd fyd-eang gan arwain at ddirwasgiadau sydyn mewn sawl gwlad ledled y byd oherwydd:

- Y dirwasgiad COVID-19 yw'r cyntaf ers 1870 oherwydd pandemig yn unig¹⁰
- Gwnaeth **cau economaidd** mewn economïau datblygedig gynyddu diweithdra ac ansicrwydd incwm¹¹
- Mae adferiad economaidd byd-eang yn cael ei effeithio'n negyddol ymhellach gan **Oresgyniad Rwsia o'r Wcráin a chwyddiant byd-eang**
- **Mae cynnydd cyflym mewn prisiau nwyddau** yn aml-ffactoraidd o ran tarddiad, oherwydd:¹²
 - ✓ **Amhariad ar y gadwyn gyflenwi yn fyd-eang:** cau ffatrioedd fel mesur lliniaru COVID-19; costau cynyddol cludo nwyddau
 - ✓ **Cynnydd mewn prisiau nwy** o ganlyniad i gynnydd yn y galw a llai o gyflenwad
 - ✓ Mae **Goresgyniad Rwsia o'r Wcráin** yn cael nifer o effeithiau oherwydd tarfu ar y gadwyn gyflenwi nwy o Rwsia; tarfu ar allforio nwyddau Wcrain fel grawn; a chau gweithrediadau yn Rwsia gan gwmnïau rhyngwladol
- Gall adferiad economaidd gael ei fygwth hefyd gan:¹³
 - ✓ **Heriau'r farchnad lafur**
 - ✓ **Tonnau newydd o COVID-19**

Mae llawer o lywodraethau **wedi lleihau gwariant ar fesurau amddiffyn cymdeithasol** (gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ar gyfer COVID-19) oherwydd costau uchel a chynyddol rheoli'r pandemig. Mae hyn yn awr **yn bygwth seiliau hanfodol ar gyfer iechyd (cyhoeddus) da.**¹⁴

Mae pedair thema hollbwysig yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw presennol wedi'u nodi gan yr adroddiad Sganio Gorwelion Rhyngwladol hwn ac wedi'u hamlinellu isod, sef:

- 1) Tai
- 2) Cyflogaeth
- 3) Bwyd
- 4) Tanwydd

¹⁰ [COVID-19 to Plunge Global Economy into Worst Recession since World War II \(worldbank.org\)](https://www.worldbank.org/en/news/press-release/2020/04/02/covid-19-to-plunge-global-economy-into-worst-recession-since-world-war-ii)

¹¹ [Employment impact of Covid-19 crisis: from short term effects to long terms prospects \(springer.com\)](https://www.springer.com/journal/11246/012020/1)

¹² [Cost of living crisis | The Institute for Government](https://www.instituteforgovernment.org.uk/news/cost-of-living-crisis)

¹³ [UN DESA Policy Brief No. 137: Ensuring SDG progress amid recurrent crises | Department of Economic and Social Affairs](https://www.un.org/development/desa/policy/2020/policy-briefs/policy-brief-no-137-ensuring-sdg-progress-amid-recurrent-crisis/)

¹⁴ [The cost of living: an avoidable public health crisis \(thelancet.com\)](https://www.thelancet.com/journal/S0140-6736(20)31146-1)

Yr argyfwng costau byw: Tai

“Cartref sefydlog diogel yw'r conglaen y mae unigolion a theuluoedd yn ei ddefnyddio i adeiladu gwell ansawdd bywyd, cyrchu gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a chael mwy o annibyniaeth.”

(Jake Eliot, Ffederasiwn Tai Cenedlaethol)¹⁵

Cefndir

Mae **bwlich buddsoddi mewn tai fforddiadwy a chymdeithasol** o 57 biliwn EUR y flwyddyn yn yr Undeb Ewropeaidd (UE).

- **Gostyngodd argaeledd tai cymdeithasol** yn y rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau dros y degawd diwethaf¹⁶
- Mae'r **cynnydd sydyn mewn tai anfforddiadwy** wedi arwain at **allgáu cymdeithasol a chanlyniadau andwyol ar yr economi**¹⁷

Yn dilyn **dirwasgiad 2008-10**, dangosodd astudiaeth fodelu o 27 o wledydd yr UE effaith yr **argyfwng tai dilynol ar iechyd hunan-gofnodedig**, gan gynnwys:¹⁸

- Roedd mynd i ôl-ddyledion tai yn gysylltiedig â **dirywiad sylweddol mewn iechyd**
- Mae iechyd pobl mewn **llety rhent wedi gwaethygu mwy** nag iechyd perchnogion tai

Mae **canlyniadau iechyd negyddol** penodol oherwydd tai anfforddiadwy a gwael yn cynnwys:¹⁹

- Clefydau anadlol, gan gynnwys asthma
- Clefydau cardiofasgwlaidd
- Clefydau heintus gan gynnwys twbercwlosis, ffliw a dolur rhydd
- Mwy o anafiadau
- Iechyd meddwl gwaeth

Yn dilyn **Pandemig COVID-19**:

- Gallai **diffyg tai fforddiadwy** effeithio ar **1.6 biliwn o unigolion ledled y byd** erbyn 2025²⁰
- Mae **prisiau tai** yn 2021 (Chwarter 2) wedi **tyfu'n llawer cyflymach nag incwm** (*Ffigur 3*)²¹

Mesurau Iliniaru

Cyn COVID-19, cafodd **mesurau amrywiol** eu cyflwyno gan lywodraethau i liniaru goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol negyddol yr argyfwng tai (*Ffigur 4*). Mae'r mwyafrif o wledydd wedi mabwysiadu polisïau yn **cefnogi tai fforddiadwy**, megis: ariannu adfywio tai (41 o wledydd); lwfansau tai (37 o wledydd); tai rhent cymdeithasol (34 o wledydd), a chymorth ariannol (rhyddhad treth) ar gyfer perchentyaeth (34 o wledydd).²²

¹⁵ [How does housing influence our health? \(The Health Foundation\)](#)

¹⁶ [Tackling Europe's housing crisis | The OECD Forum Network \(oecd-forum.org\)](#)

¹⁷ https://www.oecd-ilibrary.org/economics/brick-by-brick_8ec0f507-en

¹⁸ [The impact of the housing crisis on self-reported health in Europe: multilevel longitudinal modelling of 27 EU countries \(silverchair.com\)](#)

¹⁹ [Housing impacts health: new WHO guidelines on housing and health](#)

²⁰ [The housing crisis is getting worse – how can we fix it? | World Economic Forum \(weforum.org\)](#)

²¹ [IMF Global Housing Watch](#)


²² https://read.oecd-ilibrary.org/view/?ref=1060_1060075-0e1k3l4u1l&title=ENG_OECD-affordable-housing-policies-brief

Mewn ymateb i COVID-19, lluniodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) **22 o gamau gweithredu i wneud tai yn fwy effeithlon, cynhwysol a chynaliadwy**, gan eu rhannu'n bedwar maes polisi (Tabl 1).²³


Mae Fforwm Economaidd y Byd hefyd yn rhestru **pum cyfle i fynd i'r afael â'r argyfwng tai**:²⁴

- Ffocws ar **"dai iach"**
- Gwneud **cynnydd** ar dargedau tai y **Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs)**
- Cynyddu ymwybyddiaeth o **gyfraniad sylweddol tai i economiau cenedlaethol**
- Darparu cymorth i deuluoedd incwm isel drwy **ariannu tai â ffocws**
- **Cefnogi teuluoedd sydd mewn perygl** o gael eu troi allan / colli eu cartrefi

Ffigur 3. Prisiau tai go iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, Cronfa Ariannol Ryngwladol, 2021 (ffynhonnell Saesneg yn unig)²⁵



Ffigur 4. Trosolwg o offerynnau polisi tai cyn Covid-19: nifer y gwledydd yn adrodd a fabwysiadodd pob polisi, OECD, 2021 (ffynhonnell Saesneg yn unig)²⁶



Tabl 1: Camau gweithredu polisi tai yr OECD²⁷

Trethiant	Gwariant
<ul style="list-style-type: none"> - Dileu manteision treth perchentyaeth yn raddol - Symud trethi tai o drawsnewid tuag at ardollau blynyddol - Trethu tanwydd modur - Trethu eiddo gyda chyfraddau gwahanol (cyfradd uwch ar dir nag adeiladau) 	<ul style="list-style-type: none"> - Buddsoddi i adeiladu tai cymdeithasol gwyrdd gyda chymhwysedd cludadwy - Rhoi cymhorthdal i ôl-osod y stoc tai bresennol - Mwy o wariant ar lwfansau tai
Rheoleiddio	Cynllunio trefol
<ul style="list-style-type: none"> - Tynhau capiau benthyciad-i-werth - Cynyddu gofynion cyfalaf ar gyfer morgeisi - Llacio rheolaeth rhent - Llacio rheoleiddio landlord-tenant - Mynnu perfformiad ynni penodol trwy godau adeiladu - Meincnodi perfformiad ynni adeiladau 	<ul style="list-style-type: none"> - Ail-werthuso ffiniau daearyddol ar ddatblygiadau trefol yn rheolaidd - Llacio rheoliadau uchder adeiladau - Caniatáu i berchnogion hawliau datblygu mewn ardaloedd amgylcheddol werthfawr eu trosglwyddo - Caffael tir i atal ei ddatblygiad - Diwygio llywodraethu defnydd tir i roi mwy o awdurdod i'r lefelau metropolitan yn hytrach na lefelau is ac osgoi gorgyffwrdd - Cyfyngu ar fynediad cerbydau i ganol dinasoedd - Prisio ffyrdd trefol a/neu feysydd parcio - Datblygu cludiant cyhoeddus - Datblygu seilwaith tanwydd amgen

Golwg ar wlad: Canada

Nod y **Rapid Housing Initiative**, a lanswyd ym mis Hydref 2020, oedd **creu tai fforddiadwy newydd ar gyfer pobl a phoblogaethau sy'n agored i niwed** gyda chyllid cychwynnol o tua \$1 biliwn i:^{27,28}

- Darparu **tai parhaol** ar gyfer y rhai sy'n byw mewn llety dros dro **o fewn cyfnod byr**
- Galluogi **datblygu tai fforddiadwy parhaol newydd**, gan gynnwys adeiladu unedau tai rhent newydd, caffael tir, a throsi/adfer adeiladau presennol yn dai fforddiadwy
- **Creu swyddi** yn y sectorau tai ac adeiladu

Yn 2022, cyflwynwyd **Taliad Fforddiadwyedd Tai** ar gyfer miliwn o bobl Canada ar incwm isel sy'n wynebu anawsterau gyda chost tai. Mae'n cynnwys **taliad unwaith ac am byth** o \$500 fel cymorth ariannol.²⁹

²⁷ https://read.oecd-ilibrary.org/view/?ref=1060_1060075-0eik3l4uul&title=ENG_OECD-affordable-housing-policies-brief

²⁸ [Rapid Housing Initiative \(cmhc-schl.gc.ca\)](https://www.cmhc-schl.gc.ca/en/rapid-housing-initiative)


²⁹ [Deputy Prime Minister outlines government's Affordability Plan for Canadians - Canada.ca](https://www150.ca.gov/2022/02/24/deputy-prime-minister-outlines-government-s-affordability-plan-for-canadians/)

Golwg ar wlad: Awstralia

Mae'r **Big Housing Build initiative** (Victoria, Awstralia) wedi buddsoddi tua 6 biliwn AUS mewn unedau tai fforddiadwy a chymdeithasol newydd, gan gynnwys (Ffigur 5).^{30,31}

- Datblygiad o dros 9,000 o **dai cymdeithasol newydd a chymorth ar gyfer** gwelliannau tai
- Dros 2,000 o dai ar gyfer y rhai sy'n profi **salwch meddwl**, gan gydnabod y cysylltiad rhwng tai gwael ac adferiad o/atal problemau iechyd meddwl

Ffigur 5. Buddsoddiad mwyaf erioed Victoria (Awstralia) mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy, Homes Victoria, 2020 (ffynhonnell Saesneg yn unig)³¹



³⁰ https://read.oecd-ilibrary.org/view/?ref=1060_1060075-0eik314uil&title=ENG_OECD-affordable-housing-policies-brief

³¹ hv.more_homes_for_more_Victorians_0.pdf (www.vic.gov.au)

Yr argyfwng costau byw: Cyflogaeth a diogelwch cymdeithasol


“Mae gan fusnes ran allweddol i’w chwarae wrth wella’r amodau cymdeithasol hyn sy’n effeithio ar iechyd a thegwch iechyd: mewn amodau gwaith a chyflogaeth; mewn nwyddau a gwasanaethau; ac effaith ar y gymdeithas a’r amgylchedd ehangach.”
Yr Athro Syr Michael Marmot Cyfarwyddwr, Sefydliad Tegwch Iechyd UCL³²

Cefndir

Mae **SDG 8** yn hyrwyddo **twf economaidd cyson, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol, a gwaith gweddus i bawb.**³³ Mae ystyriaethau allweddol ar gyfer hyn yn cynnwys:

- **Diweithdra**
 - ✓ Mae newidiadau yn y gyfradd ddiweithdra rhwng 1990 a 2022 wedi cael eu heffeithio gan ddirwasgiadau economaidd ac adferiad (*Ffigur 6*)
 - ✓ Mae'r sioc economaidd fyd-eang oherwydd COVID-19 wedi arwain at fwy o ddiweithdra ac ansicrwydd incwm³⁴
- **Tâl**
 - ✓ Effeithir ar gyflogau yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad
 - ✓ Gostyngodd amllder newid cyflog yn dilyn dirwasgiad 2008 ar draws 19 o wledydd Ewropeaidd³⁵
- **Effaith annheg**
 - ✓ Mae rhai grwpiau poblogaeth yn fwy agored i ergydion economaidd
 - ✓ Mae gweithwyr anffurfiol yn dioddef effaith anghymesur oherwydd diffyg contract cymdeithasol a diogelwch cyflogaeth³⁶

Ffigur 6. Cyfanswm y gyfradd ddiweithdra, % y gweithlu, Ionawr 1990 - Mai 2022, OECD, 2022 (ffynhonnell Saesneg yn unig)³⁷



³² <https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/the-business-of-health-equity-the-marmot-review-for-industry/read-report.pdf>

³³ Goal 8 | Department of Economic and Social Affairs (un.org)

³⁴ Employment impact of Covid-19 crisis: from short term effects to long terms prospects (springer.com)

³⁵ Nominal wage rigidity in the EU countries before and after the Great Recession: evidence from the WDN surveys (europa.eu)

³⁶ WIDER Working Paper 2022/45-COVID-19 and informal work: Graddau a llwybrau effaith mewn 11 o ddinasoedd ledled y byd (unu.edu)

³⁷ Unemployment - Unemployment rate - OECD Data


Mae diweithdra a brwydrau ariannol cysylltiedig yn cael effaith andwyol ar iechyd³⁸ ac mae'n gysylltiedig ag anhwylder gorbryder cynyddol,³⁹ hunanladdiad,^{40,41} ac ymddygiadau sy'n niweidio iechyd gan gynnwys goryfed alcohol.^{42,43}

Mesurau Iliniaru

O ganlyniad i COVID-19, cafodd dau brif ddull cyllidol eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â chanlyniadau ariannol y pandemig (Ffigur 7):⁴⁴

- 1) Cynlluniau cadw swyddi, dull a ffafrir mewn gwledydd Ewropeaidd, gan arwain at ostyngiadau mwy cyfyngedig mewn cyflogaeth, gan ddangos eu llwyddiant cymharol.
- 2) Cynlluniau cymhorthdal cyflog ac estyn taliadau budd-daliadau a gohirio treth, yn arwain at gynnydd cymharol fawr mewn incwm gwario gwirioneddol aelwydydd a welwyd yng Ngogledd America a Chanada. Roedd hyn yn ffafrio dosbarthu arian parod a chynnydd mewn budd-daliadau, o gymharu â gwledydd Ewropeaidd, a allai adlewyrchu'r ffaith nad oedd cynlluniau cadw swyddi yn gwneud iawn am gcyflogau a gollwyd yn llwyr.

Ffigur 7. Effaith cynlluniau cadw swyddi a pholisïau cymorth incwm aelwydydd yn 2020, gwledydd G7, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022 (ffynhonnell Saesneg yn unig)⁴⁴



³⁸ [The impact of the housing crisis on self-reported health in Europe: multilevel longitudinal modelling of 27 EU countries \(silverchair.com\)](#)

³⁹ [Generalized anxiety disorder during COVID-19 in Canada: Gender-specific association of COVID-19 misinformation exposure, precarious employment, and health behavior change - ScienceDirect](#)

⁴⁰ [The association of COVID-19 employment shocks with suicide and safety net use: An early-stage investigation | PLOS ONE](#)

⁴¹ [The Great Recession, unemployment and suicide | Journal of Epidemiology & Community Health \(bmj.com\)](#)

⁴² [Alcohol consumption and labour market participation: a prospective cohort study of transitions between work, unemployment, sickness absence, and social benefits \(springer.com\)](#)

⁴³ [The association between unemployment trajectories and alcohol consumption patterns: Evidence from a large prospective cohort in The Netherlands - ScienceDirect](#)

⁴⁴ [International comparisons of labour markets over the coronavirus \(COVID-19\) pandemic - Office for National Statistics](#)

Mewn ymateb i argyfwng costau byw 2022, mae mesurau nawdd cymdeithasol wedi cael eu cyflwyno mewn nifer o wledydd ledled y byd (Tabl 2).

Tabl 2. Mesurau nawdd cymdeithasol a gyflwynwyd mewn gwledydd dethol

Gwlad	Mesur a gyflwynwyd
Y Deyrnas Unedig ⁴⁵	<ul style="list-style-type: none"> - £37 biliwn wedi'i fuddsoddi eleni fel bod bron i 8 miliwn o aelwydydd yn gallu derbyn: <ul style="list-style-type: none"> ✓ Taliad untro o £1,200 ✓ Taliad o £400 i bob cleient trydan domestig
Ffrainc ^{46,47}	<ul style="list-style-type: none"> - Derbyniodd 5.8 miliwn o aelwydydd incwm is sic ynni am €100 - Cynyddodd yr isafswm cyflog o €10.48 i €10.57 <ul style="list-style-type: none"> ✓ Yn cynrychioli isafswm cyflog misol gros o €1,603.12
Yr Almaen ⁴⁸	<ul style="list-style-type: none"> - €130 miliwn mewn cymorthdaliadau ar gyfer aelwydydd incwm is; aelwydydd cymwys o: <ul style="list-style-type: none"> ✓ Un person i dderbyn €135 ✓ Dau berson i dderbyn €175 - €35 ychwanegol y pen wedi hynny
Y Ffindir ⁴⁹	<ul style="list-style-type: none"> - Cynnydd o 3.5% mewn budd-daliadau ynghlwm wrth y Mynegai Pensiynau Cenedlaethol ym mis Awst <ul style="list-style-type: none"> ✓ Yn berthnasol i fudd-daliadau gan gynnwys y pensiwn cenedlaethol, budd-daliadau anabledd, cymhorthdal marchnad lafur a chymorth cymdeithasol
Canada ⁵⁰	<ul style="list-style-type: none"> - \$8.9 biliwn o gymorth newydd wedi'i gyhoeddi i wneud bywyd yn fwy fforddiadwy i Ganadaid - Parhau i addasu budd-daliadau mewn perthynas â chwyddiant dros amser
Awstralia ⁵¹	<ul style="list-style-type: none"> - Mae'r Cynllun Treth Incwm Personol yn darparu \$40 biliwn mewn rhyddhad treth i aelwydydd ers dechrau'r pandemig - O 1^{af} Gorffennaf 2022 bydd dros 10 miliwn o unigolion yn elwa o wrthbwysu treth costau byw \$420 unwaith ac am byth ar y cyd ag estyniad i wrthbwysu treth 2021-22 sy'n cynnig gostyngiad treth fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ✓ \$3,000 ar gyfer cartref dau incwm ✓ \$3,000 ar gyfer cartref dau incwm

⁴⁵ [Cost of living support factsheet: 26 May 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

⁴⁶ [Cost of living crisis: Beth mae gwledydd Ewropeaidd yn ei wneud i osgoi biliau ynni cynyddol? | Euronews](#)

⁴⁷ <https://www.pwc.fr/fr/assets/files/pdf/2022/02/en-france-pwc-actualite-sociale-111.pdf>

⁴⁸ <https://www.euronews.com/next/2022/02/03/cost-of-living-crisis-how-are-european-countries-responding-to-soaring-energy-bills>

⁴⁹ [Benefits tied to the National Pensions Index will be increased by 3.5% in August - Press releases - kela.fi](#)

